HYBU AC AMDDIFFYN

Yn ogystal â chefnogi'r Frenhines wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau brenhinol a gweithredu fel entrepreneur elusennol, mae Tywysog Cymru hefyd yn ceisio hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y wlad. Mae'r gwaith yma'n cynnwys tynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw, cynorthwyo cymunedau gwledig Prydain, annog pobl i ffermio'n gynaliadwy, ac annog pobl o wahanol ffydd a chymunedau i fod yn fwy goddefgar a deall ei gilydd yn well.

TYNNU SYLW AT RAI MATERION

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aeth Tywysog Cymru, gyda chymorth Duges Cernyw, ati unwaith eto i geisio hybu ac amddiffyn yr agweddau gorau ar Brydain a'i phobl. Mae'r gwaith yma'n aml yn golygu symbylu wrth geisio cyflawni newidiadau, creu proses o gyd-drafod, neu dynnu sylw at faterion sydd heb gael sylw.

Cyflawniadau a gwasanaeth

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau i gydnabod gwaith y gwasanaethau brys. Aeth Ei Uchelder Brenhinol ym mis Mehefin 2006 i Buncefield yn Hertfordshire lle'r oedd ffrwydrad mwyaf Ewrop mewn adeg o heddwch. Yno, diolchodd y Tywysog i'r gwasanaeth tân, yr heddlu ac eraill a aeth i'r afael â'r tân anferth mewn depo olew ym mis Rhagfyr 2005.

Yn ystod ei ymweliad, dywedodd y Tywysog fod ymdrechion y gwasanaethau brys yn "rhyfeddol" a chanmolodd ddyfalbarhad cymuned yr ardal. Bu'n rhaid i dros 2,000 o bobl adael eu cartrefi ac fe gafodd llawer o'r 630 o fusnesau sy'n cyflogi 16,500 o bobl yr ardal eu dinistrio neu eu difrodi'n ddrwg yn y ffrwydrad.

Mae Eu Huchelderau Brenhinol hefyd yn cymryd rhan mewn ymrwymiadau sy'n tynnu sylw at waith gwirfoddolwyr ar draws y DU. Ym mis Mawrth 2007, arweiniodd y Tywysog dderbyniad yn Clarence House ar gyfer rhai o'r gwirfoddolwyr sy'n cynorthwyo *Age Concern*. Daeth gwirfoddolwyr o bob oed i'r digwyddiad i ganmol gwaith yr elusen. Pwyslais arbennig y digwyddiad oedd y projectau sy'n ceisio chwalu'r rhwystrau rhwng y cenedlaethau trwy gynnal gweithgareddau ym meysydd chwaraeon, hanes a choginio.

Dywedodd Ei Uchelder Brenhinol fod mentrau *Age Concern* sy'n ceisio dod â'r cenedlaethau at ei gilydd yn hanfodol. Dywedodd: "Rwy'n eich llongyfarch chi'n wresog am y gwaith rydych chi'n ei wneud am ei bod hi'n hanfodol i ni ofalu bod y cenedlaethau'n parhau i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae mor bwysig i ni ddod o hyd i ffyrdd o warchod a meithrin y cysylltiadau â chenhedlaeth ein rhieni ac, yn wir, â chenhedlaeth ein neiniau a'n teidiau hefyd.

Cafodd gwaith grŵp arall o wirfoddolwyr ei ganmol y llynedd wrth i Dywysog Cymru ymweld â phobl ifanc sy'n helpu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i adfer Tyntesfield House yng ngogledd Gwlad yr Haf. Fel Llywydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, roedd Ei Uchelder Brenhinol yn arbennig o awyddus i weld y gwaith adfer ar y plasty gothig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diolchodd i ddisgyblion ysgolion yr ardal sy'n gwirfoddoli i helpu i adfer y tŷ, ac i'r gwirfoddolwyr eraill sy'n perthyn i gynllun Tyntesfield Youth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Cymunedau gwledig, ffermio a bwyd

Fel ffermwr ei hun, mae'r Tywysog yn ymboeni'n ddwys am gefn gwlad Prydain ac am les y rheini sy'n byw ac yn gweithio ynddo. Mae cynnal sector amaethyddol iach yn hanfodol i'r wlad, nid dim ond am

Mewn derbyniad i nodi pum mlynedd o fodolaeth ei fenter *Pub is the Hub*, dywedodd Tywysog Cymru y bu tafarndai lleol pentrefi'n rhan "arbennig ac unigryw" o fywyd ym Mhrydain ond rhybuddiodd fod bygythiad i'w dyfodol.

Roedd cwrw traddodiadol ar gael yn ystod y derbyniad yn Clarence House ym mis Mawrth 2007 i ddathlu pum mlynedd o fodolaeth *Pub is the Hub*. Mae'r fenter yn ceisio helpu tafarndai gwledig, perchnogion, dalwyr trwydded a chymunedau i ddiwallu anghenion lleol trwy ddefnyddio tafarndai fel canolfan ar gyfer gwasanaethau angenrheidiol eraill na fyddai, fel arall, ar gael yn yr ardal.

Cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd Ian a Sue Huntley o dafarn y King's Head yn Tealby, Lincolnshire. Roedden nhw wedi dod â'r fan maen nhw'n ei defnyddio i ddosbarthu prydau bwyd cartref i ysgolion cynradd y pentref.

Dywedodd Mr Huntley: "Mae siopau a gwasanaethau pentrefi'n diflannu'n gyflym felly mae'n ardderchog gweld pobl yn arallgyfeirio i'r meysydd hyn er mwyn cadw ysbryd y pentref yn fyw."

fod y dirwedd a'r dull o'i rheoli'n dibynnu ar y wybodaeth mae cymunedau ffermio wedi'i chasglu dros y canrifoedd, ond hefyd am fod natur gymdeithasol cefn gwlad yn dibynnu ar sylfaen ffermio gadarn.

Y llynedd oedd blwyddyn dathlu pum mlynedd o fodolaeth menter "*Pub is the Hub*" y Tywysog. Cafodd y fenter ei sefydlu yn 2001 trwy raglen Gweithredu Gwledig Busnes yn y Gymuned (*Business in the Community's Rural Action programme*) sy'n ceisio annog bragdai, perchnogion tafarndai, dalwyr trwydded a chymunedau lleol i hybu gwasanaethau gwledig fel siopau a swyddfeydd post trwy eu cadw mewn tafarndai, sef calon draddodiadol llawer o bentrefi mawr a bach.

Fel ffordd o ddathlu pen-blwydd ei fenter, cynhaliodd Ei Uchelder Brenhinol dderbyniad yn Clarence House ym mis Mawrth 2007 ar gyfer perchnogion tafarndai a rhai o gynrychiolwyr y diwydiant. Yn ystod ei blwyddyn gyntaf, mae menter *Pub is the Hub* wedi ymwneud â dros 300 o brojectau, yn cynnwys 100 o swyddfeydd post, 80 o siopau cymunedol a 30 o ganolfannau hyfforddi sgiliau cyfrifiadurol.

Ym mis Tachwedd 2006, treuliodd y Tywysog a'r Dduges ddiwrnod yn ymweld â rhai o ffermydd a threfi Northumberland. Ymhlith yr ymrwymiadau oedd ymweliad â fferm organig yn Bellingham lle cafodd Eu Huchelderau Brenhinol baned o de a chyfle i drafod dyfodol economi gwledig Gogledd-ddwyrain Lloegr gyda rhai o arweinwyr busnesau lleol; cyfarfod o ffermwyr yn nhafarn yr Holly Bush yn Greenhaugh; ac ail agoriad swyddogol neuadd bentref Sefydliad y Jiwbilî yn Rothbury, ar ôl y gwaith ailwampio arni. Bu cynnig tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn agwedd arall ar waith y Tywysog ers tro byd. Ym mis Rhagfyr 2006, ymatebodd deg o gwmnïau dŵr mwyaf y DU i alwad gan Ei Uchelder Brenhinol i project peilot gael ei sefydlu i ddatblygu cartrefi newydd. Fel perchnogion llawer o dir mewn ardaloedd gwledig, mae'r cwmnïau dŵr mewn lle cadarn i weithio gyda chynghorau plwyf, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer tai fforddiadwy newydd.

TYNNU SYLW AT RAI MATERION PARHAD

"Ym mis Medi 2006, talodd Ei Uchelder Brenhinol deyrnged i "rym a mawredd" y Llyfr Gweddi Gyffredin. Dywedodd ei fod wedi gwneud dyfalbarhad a chydbwysedd yn rhinweddau sylfaenol yn niwylliant Lloegr."

I ddarllen yr araith gyfan a draddododd Tywysog Cymru yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas y Llyfr Gweddi, ewch i **www.princeofwales.gov.uk/speeches**

Fel un sy'n frwd o blaid bwyta'n iach a defnyddio bwydydd Prydeinig lleol, cynhaliodd Tywysog Cymru dderbyniad gyda Duges Cernyw yn Clarence House ym mis Chwefror 2007 i dalu teyrnged i gogyddion a phenaethiaid rhai o ysgolion y wlad sy'n helpu i gynnig bwyd gwell i'r disgyblion. Daeth Jamie Oliver, pen-cogydd byd y teledu, i'r achlysur a bu ef a'u Huchelderau Brenhinol yn sgwrsio gyda chogyddion ac athrawon am eu hymdrechion i wella diet plant ysgol y wlad.

Ym mis Tachwedd 2006, llywyddodd y Tywysog mewn cinio yn Clarence House ar gyfer pen-cogyddion a pherchnogion rhai o fwytai Ewrop i hybu ansawdd cig eidion o Brydain ac i wella'r farchnad allforio. James Martin, y pen-cogydd, oedd yn gyfrifol am y fwydlen, ac fel un sy'n frwd o blaid diwydiant ffermio Prydain, gofalodd Ei Uchelder Brenhinol fod y cig eidion ar y fwydlen yn perthyn i'r pedwar brîd traddodiadol ym Mhrydain: Aberdeen Angus; South Devon; Sussex a Gwartheg Duon Cymreig.

Ffydd a chymunedau ethnig

Bu annog pobl o wahanol gymunedau a ffydd ym Mhrydain i fod yn fwy goddefgar yn un o nodweddion gwaith y Tywysog ers tro byd. Ym mis Mai 2006, agorodd Ei Uchelder Brenhinol "*The Tent*", yng nghanolfan St Ethelburga's yn Llundain. Pabell yw hon yn null y Bedwiniaid, ac mae'n lle pwrpasol i bobl drafod a dysgu am wahanol ffydd. Ar ôl yr agoriad pan oedd cynrychiolwyr naw gwahanol ffydd yn bresennol, anerchodd y Tywysog y gynulleidfa oedd yn cynnwys Esgob Llundain, y Gwir Barchedig Richard Chartres, y Pen Rabi Syr Jonathan Sacks a chynrychiolwyr ffydd o gymunedau Mwslim, Hindŵ, Sikh a Bwdhaidd.

Mae hen hanes i eglwys St Ethelburga's fel lle i ddod â phobl o wahanol ffydd at ei gilydd. Y Parchedig John Rodwell, rheithor St Ethelburga's rhwng 1843 a 1900, oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r fersiwn Saesneg dibynadwy cyntaf o'r Corân. Yn ystod ei ymweliad, dadorchuddiodd y Tywysog lechen i gofio am y Parchedig Rodwell.

Ym mis Medi 2006, talodd Ei Uchelder Brenhinol deyrnged i "rym a mawredd" y Llyfr Gweddi Gyffredin. Dywedodd ei fod wedi "gwneud dyfalbarhad a chydbwysedd yn rhinweddau sylfaenol yn niwylliant Lloegr." Roedd y Tywysog yn siarad yn rhinwedd ei swydd fel Noddwr Cymdeithas y Llyfr Gweddi ar achlysur dathlu pen 450 o flynyddoedd ers i Thomas Cranmer, awdur y Llyfr Gweddi Gyffredin, gael ei ddienyddio a mynd yn ferthyr.

Mae'r Gymdeithas yn bodoli'n unswydd i hybu ac amddiffyn y Llyfr Gweddi Gyffredin ac i'w gyflwyno i bobl ifanc, offeiriaid dan hyfforddiant a chynghorau eglwysi. Canmolodd Ei Uchelder Brenhinol y llyfr, gan ddweud ei fod yn gyswllt pwysig rhwng gwahanol genedlaethau a'i fod yn gofalu bod y gwerthoedd traddodiadol sydd ynddo'n aros ar flaen y gad o ran addoli Anglicanaidd heddiw.

Mae Tywysog Cymru wedi gweithio am flynyddoedd lawer i helpu'r gymuned Mwslim yn y DU. Cafodd y rhaglen arweinyddiaeth gyntaf erioed ar gyfer Mwslimiaid ifanc (*Young Muslim Leadership Programme* neu YMLP) ei lansio'r llynedd yng Nghanolfan Astudiaethau Islamaidd Prifysgol Rhydychen. Ei Uchelder Brenhinol a awgrymodd sefydlu'r YMLP, ac mae'r rhaglen yn golygu y bydd 25 o Fwslimiaid ifanc y flwyddyn yn cael cyfle i fynd ar gwrs dwys pythefnos o hyd i geisio gwella'u gwybodaeth am fywyd prif ffrwd Prydain, ac i godi'u hyder a gwella'u sgiliau er mwyn eu helpu i wireddu eu potensial yn llawn.

Cafodd aelodau'r YMLP cyntaf gyfle i ddysgu mwy am y drefn wleidyddol ym Mhrydain. Roedd y cwrs yn cynnwys diwrnod yn Llundain gydag ymweliadau â Thŷ'r Cyffredin a Phalas Buckingham, ac aeth uwch wleidyddion, cynrychiolwyr mudiadau anllywodraethol a newyddiadurwyr i ymweld â'r grŵp yn Rhydychen.

Ym mis Chwefror 2007, aeth y Tywysog a Duges Cernyw i'r Amgueddfa Iddewig yn Llundain i nodi'r 75 mlynedd ers i fudiad rheoli'r amgueddfa gael ei sefydlu. Aeth Eu Huchelderau Brenhinol o gwmpas yr amgueddfa a gafodd ei sefydlu yng Nghamden yn 1932 i ddisgrifio hanes Iddewon ym Mhrydain. Daeth y Tywysog yn Noddwr yr amgueddfa yn 2006, ac wrth ymweld â'i safle yn Finchley ym mis Mehefin cafodd gyfle i gwrdd Leon Greenman, un o oroeswyr gwersyll crynhoi Auschwitz.

Gohebiaeth a chyfarfodydd

Yn ogystal â thynnu sylw'n gyhoeddus at faterion na fyddai fel arall yn cael sylw efallai, mae Ei Uchelder Brenhinol, fel aelod o'r Cyfrin Gyngor, yn ysgrifennu'n breifat at Weinidogion y Llywodraeth, arweinwyr busnesau a phobl ddylanwadol eraill, ac yn eu cwrdd. Mae pynciau'r llythyrau a'r sgyrsiau'n amrywiol iawn ac yn cynnwys rhai y mae pobl eraill wedi'u codi neu rai sydd o ddiddordeb i'r Tywysog ei hun yn sgil ei gyfarfodydd a'i ymweliadau ar draws y DU a thramor. Wrth wneud hyn, mae'r Tywysog bob amser yn gofalu osgoi materion y pleidiau gwleidyddol a rhai sy'n wleidyddol sensitif.